




GREAT

RHWYDWAITH CYMRU

YMCHWIL, ADDYSG A THRIN GAMBLO



2020 - 2021
Adroddiad Blynyddol





Cynnwys

Am y Rhwydwaith	3
Ein nodau	4
Pwy yw pwy	4
Uchafbwyntiau 2020 - 2021	5
Ble Nesaf?	6

Am y Rhwydwaith

Diben Rhwydwaith GREAT Cymru, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe, yw ysgogi ymchwil i bob math o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ymhlith unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan annog addysg amdano a dulliau i'w drin.

Mae gamblo yn weithgaredd hamdden sy'n gynyddol boblogaidd, ond ar gyfer carfan sylweddol a chynyddol o'r boblogaeth, gall droi'n ddibyniaeth ac arwain at ffurfiau amrywiol ar niwed cysylltiedig.

Fel rhwydwaith o ymchwilwyr, darparwyr gwasanaeth, pobl â phrofiad go iawn a llunwyr polisi, Mae GREAT yn datblygu triniaethau effeithiol ar gyfer gamblo niweidiol neu ormodol, gwasanaethau addysgol ac ymgynghori ar gyfer pob sector, mae'n cynhyrchu ymchwil ddiduedd o safon a adolygir gan gymheiriaid, ac yn gweithredu fel cronfa wybodaeth ar gyfer tystiolaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil wyddonol a pholisïau am gamblo a'i niwed cysylltiedig.



Ein nodau

- I adeiladu ac i ddatblygu sail dystiolaeth er mwyn deall natur a graddfa'r niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn well yng Nghymru
- I ddatblygu ac i werthuso ffyrdd o atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- I ddatblygu triniaethau effeithiol ar gyfer gamblo sy'n achosi problemau neu or-gamblo
- I hysbysu ymchwil gamblo sy'n seiliedig ar bolisi
- I ddarparu gwasanaethau addysgol ac ymgynghori a anelir at godi ymwybyddiaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- I gryfhau a chadarnhau capasiti, gallu a dichonoldeb hirdymor ymchwil gamblo yng Nghymru.

Pwy yw pwy

Cyfarwyddwr y Rhwydwaith

Yr Athro Simon Dymond

Prifysgol Abertawe

Tîm Rheoli

Yr Athro Henrietta Bowden-Jones OBE

Clinig Cenedlaethol ar gyfer Gamblo

Cymhellol

Dr Alice Hoon

Prifysgol Abertawe

Yr Athro Bev John

Yr Athro Gareth Roderique-Davies

University of South Wales

Cydlynnydd Ymchwil

Susannah Field

Prifysgol Abertawe

Cysylltwch â ni

 swansea.ac.uk/great

 great@swansea.ac.uk

 [@greatcymru](https://twitter.com/greatcymru)

Uchafbwyntiau 2020 - 2021

Er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn ystod ei flwyddyn gyntaf, mae ymchwilwyr yn Rhwydwaith Ymchwil, Addysg a Thrin Gamblo (GREAT) Cymru wedi chwarae rôl ganolog mewn sawl datblygiad arwyddocaol i'r amgylchedd gamblo yng Nghymru.

Galwad am glinigau anhwylder gamblo yng Nghymru

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd aelodau o Rwydwaith GREAT Cymru lythyr yn y cyfnodolyn meddygol blaenllaw yn fyd-eang, *The Lancet*, a oedd yn galw am sefydlu clinigau trin anhwylderau gamblo yn y GIG yng Nghymru mewn ymateb i effaith ddifrifol gamblo cymhellol ymysg pobl ifanc. Amlygodd y llythyr anghydraddoldebau sylweddol o ran darpariaeth triniaeth rhwng cenhedloedd y DU.

Creu darpariaeth y GIG ar gyfer niwed sy'n ymwneud â gamblo

Mae aelodau o Rwydwaith GREAT yn gweithio gydag Is-adran Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gwasanaethau GIG cenedlaethol cyntaf i drin niweidiau sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru. Caiff ymchwil ei hymgorffori'n rhan o'r gwasanaethau newydd gan gynyddu capasiti ymchwil yng Nghymru, gwella ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd opsiynau cymorth ar gyfer grwpiau gwahanol ym mhoblogaeth Cymru a galluogi gwelliant parhaus o ran gofal a thriniaeth.

Cyflwyno tystiolaeth i Adolygiad Deddf Gamblo 2005

Fel un o aelodau cyntaf Fforwm Academyddion ar gyfer Astudio Gamblo, ymatebodd yr Athro Dymond i alwad ddiweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig am dystiolaeth i Adolygiad Deddf Gamblo 2005. Mae'r Ddeddf yn tanategu bron yr holl reoliadau gamblo yn y DU ond mae ar ei hôl hi'n sylweddol o ran y datblygiadau enfawr yn y sector gamblo dros y 15 mlynedd diwethaf yn ogystal â'n dealltwriaeth gynyddol o ffactorau megis y ffaith bod rhai grwpiau'n fwy agored i niwed sy'n ymwneud â gamblo.

Parhad drosodd

Astudiaeth Iechyd a Gamblo Cyn-aelodau Lluoedd Arfog y DU

Arweiniodd yr Athro Dymond y gwerthusiad cyntaf o broblemau sy'n ymwneud â gamblo ymysg cyn-aelodau Lluoedd Arfog y DU, a ariannwyd gan yr Ymddiriedolaeth Forces in Mind. Awgrymodd tystiolaeth bersonol fod perygl uwch y bydd unigolion bregus yn datblygu caethiwed i gamblo, ond roedd natur y broblem yn y DU yn anhysbys.

Archwiliodd yr ymchwil hon hyd a led ymddygiad gamblo ymysg cyn-filwyr y DU o'i gymharu â'r rhai nad oeddent wedi bod yn y lluoedd arfog, yn ogystal â'r berthynas rhwng problemau sy'n ymwneud â gamblo a hyd gwasanaeth, defnydd o alcohol a thrawma. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2021 a bydd yn llywio ymyriadau cymorth ar gyfer y rhai sy'n symud i fywyd fel dinasyddion preifat, a ffactorau y dylid eu cynnwys mewn arolygon iechyd y dyfodol o boblogaeth y DU.

Ble Nesaf?

Yn 2021-2022, ein nod yw:

- Parhau i ehangu aelodaeth a chyrraedd Rhwydwaith GREAT Cymru
- Denu rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud â gamblo i Gymru, gan adeiladu ar ein sylfaen dystiolaeth
- Sicrhau cefnogaeth gan y Comisiwn Gamblo i feithrin capasiti ymchwil ym maes gamblo yng Nghymru
- Sefydlu GREAT fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe

Eisiau rhagor o wybodaeth? Cysylltwch â Rhwydwaith GREAT Cymru



swansea.ac.uk/great



great@swansea.ac.uk



[@greatcymru](https://twitter.com/greatcymru)